

# Plan(ed) B

## GWEITHGAREDD CANFYDDIAD

### NODAU'R GWEITHGAREDD

- Adnabod sut allwn ni helpu diogelu cynefinoedd naturiol anifeiliaid gwyllt
- Disgrifio'r niwed mae bodau dynol yn achosi i anifeiliaid gwyllt a'r goblygiadau i'r blaned
- Adnabod y gall fod yn anodd bodloni anghenion anifeiliaid gwyllt mewn caethiwed, ac weithiau nad yw hyn yn bosibl

### CWESTIYNAU ALLWEDDOL

- A ddylai cynnydd i fodau dynol achosi dioddefaint i anifeiliaid?
- Beth allwn ni ei wneud i helpu anifeiliaid gwyllt?
- A ddylen ni gadw anifeiliaid mewn caethiwed ar gyfer adloniant?
- Pam ddylen ni gael tosturi tuag at anifeiliaid gwyllt a'n blaned?

## ADNODDAU

- Sleidiau PDF rhyngweithiol 'Plan(ed) B' i dywys disgyblion trwy'r gweithgareddau
- Delweddau o anifeiliaid wedi eu heffeithio gan lygredd, sbwriel a dinistr o'u cynefinoedd: mae'r enghreifftiau ar sleidiau pedwar i chwech

Mae'r adnodd hwn wedi'i anelu'n bennaf at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Oherwydd natur y pynciau sy'n cael eu trafod yn y rhaglen Compassionate Class, mae'n bwysig ystyried sut allai plant gwahanol ymateb i'r trafodaethau. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â chreu amgylchedd addysgu a dysgu diogel, darllenwch y canllawiau ar dudalen chwech i wyth y ddogfen Trosolwg Athro. Mae modd lawrlwytho'r ddogfen yma ar: **[rspca.org.uk/ccresources](https://rspca.org.uk/ccresources)**. I gael gwybodaeth am sut i addasu Rhyddid ar Fuarth y Fferm i gynorthwyo disgyblion sydd â SEND, gweler y canllawiau ar dudalen wyth y ddogfen hon a thudalennau wyth a naw y Trosolwg i Athrawon.



# Plan(ed) B

## SYMBYLIAD

**15  
MUNUD**

### Erthygl papur newydd am anifeiliaid gwyllt

Bydd y sesiwn hon yn helpu plant i ddeall oherwydd bod anifeiliaid mor wahanol, fod yna bethau anhygoel a syfrdanol am bob un ohonynt. P'un a ydynt yn adar hardd, cwningod fflwfflyd, pryfed mân neu eliffantod anferth mae ganddynt oll deimladau ac maent yn rhan o'r gadwyn fwyd. Gall bodau dynol achosi niwed i anifeiliaid gwyllt trwy ollwng sbwriel neu mewn damweiniau car. Gallant hefyd achosi niwed i anifeiliaid trwy dorri neu ddinistrio cynefinoedd gyda gwaith adeiladu, neu trwy lygredd.

Cychwynnwch drwy ofyn i'r dosbarth: Beth allwn ni ei wneud i helpu anifeiliaid gwyllt? Pam ddylen ni gael tosturi tuag at ein planed? Cofnodwch eu meddyliau yn y blwch ar sleid dau, neu argraffwch y sleid fel bod modd i'r disgyblion ysgrifennu arno. Gallwch chi ddefnyddio hyn fel asesiad gwaelodlin i gael syniad o ddealltwriaeth gychwynnol y disgyblion ac rydym yn eich annog i ailymweld â'r syniadau hyn ar ddiwedd y sesiwn.

I gael plant i feddwl am oblygiadau diffyg tosturi dynol tuag at anifeiliaid gwyllt, dangoswch sleid tri a darllen y stori newyddion ffuglennol a'r pennawd fel dosbarth.

Amlygwch ddyddiad yr erthygl, a gofyn i'r plant sut ei bod yn bosibl i hyn ddigwydd. Mae sleidiau tri i bump yn dangos delweddau o lygredd a sbwriel dynol. Argraffwch a dosbarthwch nhw neu eu harddangos ar sgrin, ac anogwch y plant i drafod beth allant wedi yn y lluniau.

Ar gyfer plant gallu is ac iau, gallech ychwanegu brawddeg i esbonio gyda phob llun e.e. mae'r morlo hwn wedi ei ddal mewn sbwriel felly ni fydd yn gallu nofio'n iawn a dal pysgod i'w bwyta.

Gofynnwch iddynt rannu ffyrdd i atal y pennawd hwn rhag dod yn wir.

### NEWYDDION Y BYD

Dydd Llun 24ain Mawrth 2041 Rhifyn 2555888

#### Creadur olaf y byd yn marw



Bu farw Gobaith y morlo, y creadur olaf yn dal yn fyw ar y Ddaear, yn ei llecyn yn Sêl Caer heddiw. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae'r sêl wedi bod yn gartref i'r ychydig anifeiliaid olaf i gael eu hachub pan nad oedd digon o gynfinoedd naturiol ar ôl mwych yr creaduriaid hyn fyw yn y

**SLEID  
2-6**

# Plan(ed) B

## TRAFODAETH RAGARWEINIOL

5-10  
MUNUD

### Beth yw barn yr RSPCA am ofalu am anifeiliaid gwyllt a'r blaned?

Gofynnwch i'r plant awgrymu anifeiliaid gwyllt maent wedi eu gweld yn eu hardal leol, neu tra'u bod yn yr awyr agored. Gofynnwch iddynt feddwl am sut mae'r anifeiliaid hyn yn dibynnu ar ei gilydd ac ar blanhigion i oroesi, gan ddefnyddio categorïau cynhyrchwr, ysglyfaeth ac ysglyfaethwr. Ar wahân i fwyd, beth arall mae rhai o'r anifeiliaid hyn angen i fod yn hapus ac iach?

Gallai'r awgrymiadau gynnwys coed a deunydd nythu ar gyfer adar, pridd i dwrio dan ddaear i gwningod a moch daear, llefydd diogel i guddio i lygod. Dangoswch sleid saith ac esboniwch beth mae'r RSPCA yn ei feddwl am anifeiliaid gwyllt.

Wedi ychydig funudau, holwch: sut mae gweithredoedd bodau dynol yn effeithio ar les anifeiliaid? Defnyddiwch y blwch testun ar sleid wyth i gofnodi eu syniadau. Wedi iddynt wneud rhai awgrymiadau cychwynnol, defnyddiwch y cwestiynau procio i ennyn ymatebion pellach.

## CWESTIYNAU PROCIO

- Beth allwn ni wneud i leihau'r nifer o anifeiliaid gwyllt sydd wedi eu brifo neu anafu trwy weithredoedd dynol?
- A oes effaith ar greaduriaid eraill pan fydd niferoedd un rhywogaeth yn dirywio?
- Ai'r ateb yw cadw anifeiliaid gwyllt mewn caethiwed?

SLEID  
7-8

# Plan(ed) B

## BLWCH FFEITHIAU ANIFEILIAID GWYLLT

- Mae'r RSPCA yn ystyried 'anifeiliaid gwyllt' i fod yn rhai nad ydynt wedi eu dofi; mae hyn yn amrywio o foch daear i adar, morloi i nadredd anwes
- Mae pryder yr RSPCA ar gyfer anifeiliaid gwyllt yn seiliedig ar sut maent yn cael eu trin ac os yw bodau dynol yn achosi dioddefaint
- Gall gweithgareddau dynol fel adeiladu tai newydd ar ben cynefinoedd bywyd gwyllt a sbwriel achosi dioddefaint neu effeithio ar anifeiliaid gwyllt mewn sawl ffordd
- Gall darparu beth mae anifeiliaid gwyllt angen mewn caethiwed e.e. mewn sŵ, fod yn heriol. Mae'r amgylchedd caeth gorau yn dynwared elfennau o awyrgylch naturiol anifail yn y gwyllt
- Mewn rhai amgylcheddau caeth, mae'n well peidio â chadw rhai anifeiliaid gwyllt o gwbl, gan na ellir bodloni eu hanghenion. Mae hyn yn cynnwys primatiaid fel anifeiliaid anwes, anifeiliaid mawr fel eliffantod a bywyd gwyllt morol fel morfilod a dolffiniaid
- Dylai pob anifail, yn cynnwys anifeiliaid gwyllt, fod yn ddiogel rhag niwed a dioddefaint
- Mae'r RSPCA yn credu na ddylid cadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcas neu at ddibenion adloniant gan na ellir bodloni eu hanghenion yn y sefyllfaoedd hyn
- Mae sut ydyn ni'n byw yn effeithio ar anifeiliaid gwyllt o'n cwmpas
- Dylid diogelu anifeiliaid a'u cynefinoedd ar dir a môr rhag llygredd a dinistr
- Mae'r RSPCA yn trin anifeiliaid sydd wedi eu hanafu, amddifad ac sy'n sâl yn ei ganolfannau bywyd gwyllt ac yn ceisio eu dychwelyd i'r gwyllt



# Plan(et) B

## TASG

**10-15  
MUNUD**

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau, a rhoi llun o anifail yn ei gynefin naturiol i bob grŵp. Defnyddiwch sleid naw am enghreifftiau.

Dylai pob grŵp drafod pa gynefin/oedd mae eu hanifail yn byw ynddynt a beth yw ei anghenion.

Yna dylai'r plant ystyried beth fyddai'n digwydd i'r anifail hwnnw pe byddai'n colli ei gynefin. Os ydynt wedi gweld yr anifail hwn yn y cawd, anogwch nhw i feddwl a oedd hyn yn y cynefin yn y llun. Efallai ei fod mewn caethiwed, neu mewn amgylchedd trefol.

Ym mha ffordd allai'r cynefin amgen hwn beidio â bod yn addas i'r anifail? Dylai pob grŵp wneud nodiadau i'w helpu cofio eu syniadau, cyn rhannu eu syniadau gyda gweddill y dosbarth.

Gallech fodelu enghraifft yn defnyddio sleid deg cyn cychwyn: mae gwiwer angen coed, deunyddiau i wneud nyth a llefydd i fforio am hadau a chnau.

Gellir argraffu'r blwch ffeithiau ar dudalen pedwar i'r plant, ac mae gwybodaeth fanylach ar anifeiliaid gwyllt a'u cynefinoedd ar gael yng **nghyfres taflenni'r RSPCA 'Living with'**.

**SLEID  
9-10**

# Plan(et) B

## TRAFODAETH DOSBARTH: AMDDIFFYN

10-20  
MUNUD

Gofynnwch i'r plant drefnu eu hunain i gylch meddwl. Atgoffwch y plant i wrando yn barchus ar ei gilydd, heb ymyrryd ac i adeiladu ar y syniadau a chwestiynau.

### CWESTIWN I GYCHWYN

- A oes gennym gyfrifoldeb i amddiffyn anifeiliaid gwyllt a'n planed?

### CWESTIYNAU PROCIO

- A ddylen ni gadw anifeiliaid mewn caethiwed er mwyn eu hamddiffyn?
- Beth sydd bwysicaf, arian neu'r blaned?
- Pam fod bodau dynol eisiau gweld cynnydd o hyd – fel adeiladu tai a ffyrdd newydd, cyflwyno technoleg newydd?
- Sut le fyddai'r byd heb fodau dynol?
- Pwy sy'n berchen ar y blaned?
- Beth mae anifeiliaid gwyllt yn ei roi i ni?

## CRYNHOI'R SESIWN

5  
MUNUD

Gwahoddwch y disgyblion i ailddarllen eu hymatebion cychwynnol a gofnodwyd ar sleid dau. Gofynnwch ibob disgybl feddwl am syniad neu gwestiwn o'r sesiwn yr hoffent ei archwilio ymhellach, neu oedd yn rhywbeth newydd iddynt ganfod heddiw. Anogwch ddisgyblion i rannu'r rhain â gweddill y dosbarth a'u cofnodi o dan eu syniadau cychwynnol o ddechrau'r wers. Trwy gadw'r PDF, gallwch ddychwelyd at y syniadau hyn mewn sesiwn arall.

Anogwch y plant i feddwl am sut mae anifeiliaid gwyllt yn ychwanegu at ein profiad o'r awyr agored, yn ogystal â sut mae anifeiliaid fel pryfed yn gallu effeithio ar y gadwyn fwyd a'n bywydau, fel gwenyn yn gwneud mêl a phryfed yn peillio cnydau.

SLEID  
2

# Plan(ed) B

## ADNODDAU ESTYNIAD

Er mwyn defnyddio'r dysgu o'r sesiwn canfyddiad hon ymhellach, gallech archwilio ein gweithgareddau estyniad awgrymedig.

### Llyfrau

© A. E. T. Browne & Partners 1992



**Zoo**  
by Anthony  
Browne

© Michael Foreman 1994



**Dinosaurs  
and all that rubbish**  
by Michael Foreman

© Colin Thompson 1992



**The Paperbag  
Prince** by  
Colin Thompson

### Adnoddau Ar-lein

- Archwiliwch effeithiau llygredd a sbwriel ar anifeiliaid gwyllt fel moch daear, gwylanod, morloi a draenogod trwy wyllo'r **fideo RSPCA** hwn. Ystyriwch drefnu sesiwn casglu sbwriel gyda'ch dosbarth. Defnyddiwch **gyfres taflenni'r RSPCA 'Living with'** i edrych ar sut y gall bodau dynol ac anifeiliaid gwyllt rannu cynefinoedd, a dysgu sut i fodloni anghenion lles anifeiliaid gwyllt penodol
- Archwiliwch adnoddau'r RSPCA ynghylch **anifeiliaid a gedwir mewn caethiwed** a dysgu am eu barn am **anifeiliaid syrcas**. Gallai'r plant ysgrifennu a pherfformio hysbyseb deledu neu greu poster i arddangos eu dealltwriaeth
- Os ydych chi eisiau ysbrydoli eich dosbarth gyda mwy o ffilmiau am les anifeiliaid, cymerwch olwg ar sianel YouTube yr RSPCA **[youtube.com/rspcauk](https://www.youtube.com/rspcauk)**

# Plan(ed) B

## ADNODDAU ERAILL I GYNORTHWYO DISGYBLION SYDD Â SEND

Mae'r gweithgareddau isod yn awgrymiadau i'ch helpu i addasu'r gweithgareddau Dosbarth Tosturiol i gynorthwyo ag anghenion eich disgyblion.

### TASG (TUDALEN PUMP)

Os oes gennych fynediad at gyfrifiaduron/cyfrifiaduron llechen, gofynnwch i'r disgyblion ddewis un o'r tri anifail yn **Who Lives Where?** a defnyddio'r adnodd i lunio cynefin addas sydd â phopeth sydd ei angen ar yr anifail. Fel arall, fe allech chi ddefnyddio'r adnodd fel gweithgaredd dosbarth cyfan.

Gofynnwch i'r disgyblion pa bethau a allai ddigwydd i'r cynefin a fyddai'n ei newid. Beth allai ddigwydd pe na bai gan yr anifail y cynefin hwnnw i fyw ynddo? Sut fyddai bywyd yr anifail yn wahanol pe na bai yn y gwyllt?

Dylai disgyblion dynnu llun i ddangos hyn. Defnyddiwch y blwch ffeithiau ar dudalen pedwar y Nodiadau i Athrawon os hoffech i ddisgyblion ychwanegu gwaith ysgrifenedig at eu gwaith, neu fel arall gall disgyblion ysgrifennu gair allweddol neu ddau i ychwanegu rhagor o gyd-destun at eu lluniau.





# Plan(ed) B

## BETH NESAF?

Os mai dyma eich gweithgaredd Canfyddiad cyntaf, dewiswch weithgaredd ysgogol arall i'w gwblhau gyda'ch disgyblion.

Os ydych chi eisoes wedi cwblhau o leiaf dau weithgaredd Canfyddiad, dewiswch weithgaredd Eiriolaeth a fydd yn darparu mynediad i'ch dosbarth at y gystadleuaeth Compassionate Class. Rydym wedi cynnwys gweithgareddau Eiriolaeth awgrymedig isod sy'n gysylltiedig i'r gweithgaredd Canfyddiad hwn.

# Gweithgareddau eiriolaeth

**OS OEDDECH CHI’N HOFFI’R GWEITHGAREDD  
CANFYDDIAD ‘PLAN(ED) B’, BETH AM ROI  
CYNNIG AR Y GWEITHGAREDDAU HYN**



## MINI FI

**Gofynnwch i’r dosbarth ystyried y gwahaniaethau yn sut fyddai’n rhaid i ni fyw pe byddem yr un maint â phryfed? Pam fod pryfed yn bwysig? Yna, naill ai;**

- Ymchwil plant, dychmygwch a chynllunio byd ble mae bodau dynol yr un maint â phryfed. Crëwch bobl fach o glai a thynnu lluniau ohonynt gyda gwrthrychau cyffredin neu ysgrifennu straeon neu gynyrchiadau drama yn eu defnyddio
- Rhannwch ddelweddau o fodelau bach iawn a deunyddiau ar wefan yr ysgol a gofyn i wylwyr ystyried yr effeithiau dynol ar anifeiliaid, a sut mae dychmygu eu hunain yn fach wedi eu helpu i edrych o’r newydd ar bryfed

## BYD GWLYPACH

**Dychmygwch beth fyddai’n digwydd os byddai llifogydd ar y tir. Gweithiwch gyda’ch gilydd i greu dinas danddwr. Sut fydd bodau dynol, anifeiliaid tir a chreaduriaid y môr oll yn bodoli a byw gyda’i gilydd yn yr un amgylchedd?**

- Ystyriwch sut i gyfathrebu peryglon bodau dynol i anifeiliaid gwyllt i gymuned yr ysgol. Gellir mynegi syniadau trwy greu murlun anferth, golygfa cardfwrdd gyda deunyddiau wedi eu hailgylchu, diorama, neu ysgrifennu drama

